# POWELL, DAVID ('Dewi Nantbrân '; bu farw 1781). Brawd o Urdd S. Ffransis

**Enw:** David Powell
**Ffugenw:** Dewi Nantbrân
**Dyddiad marw:** 1781
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** Brawd o Urdd S. Ffransis
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

a aned fel y tybir, yn y Fenni. Bu yng nghwfaint y Brodyr Llwydion yn Douai. Ar ei ddychweliad i Gymru (1740), ymsefydlodd yn eu cwfaint yn y Berthhir yn sir Fynwy (nid ymddengys fod iddo unrhyw gyswllt â hen deulu Powell, Perth-hir, a enwir ar t. 934). Brodyr o'r cwfaint hwn a wasnaethai gapel Pabyddol y Fenni, a gweithredodd ' y Brawd Gregori ' (dyna oedd enw Powell 'mewn crefydd') fel periglor (*praeses*) Pabyddion y Fenni ar wahanol adegau rhwng 1740 a 1767. Ar 21 Gorffennaf 1778 fe'i ceir yn arwyddo (yn y Fenni) ddatganiad o deyrngarwch i'r brenin (Bradney, *Monmouthshire*, I, ii, 194). Yn y Fenni y bu farw, 12 Hydref 1781. Cyhoeddodd yn 1764 gatecism Cymraeg, *Catechism Byrr o'r Athrawiaeth Ghristnogol; er Addysc ysprydol, i Blant; a'r Werinos Anwybodus trwy Gymru oll. O Gasgliad Dewi Nantbrân Off. O.S.F.* Diamau hefyd mai ef, dan y llythrennau 'D.P.', a gynhyrchodd ddau lyfr arall. Y cyntaf (1764 eto) oedd *Sail yr Athrawiaeth Catholic*. Yr ail, yn 1776, oedd *Allwydd y Nef. O gasgliad D.P. Off.*, cyfaddasiad o *Allwydd Paradwys*, 1670, ' John Hughes ' (gweler t. 359 uchod). Dengys Fisher (isod) fod Cymraeg David Powell yn llawer glanach na Chymraeg *Allwydd Paradwys*.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


Joseph Gillow, *A Literary and Biographical History or Biographical Dictionary of the English Catholics* (c.1895–1902)

*Journal of the Welsh Bibliographical Society*, II, i, 59 a viii, 322

John Fisher, rhagymadrodd i adargraffiad Prifysgol Cymru o *Allwydd neu agoriad paradwys i'r Cymru hynny yw gweddiau, devotionau, cynghorion, ac athrawiaethau tra duwiol ac angentheidiol i bôb Christion yn mynnu agoryd y Porth a myned i mewn i'r Nef. Wedi eu cynnull o amryw lyfrau duwiol, a'i cyfeithu [sic] yn Gymraeg neu wedi eu cyfansoddi* (1670)


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 51564585

Wikidata: Q28361342


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu